

Awdurdod S4C **Bwletin – Hydref 1999**

Mae Awdurdod S4C wedi ymrwymo i bolisi o fod mor agored â phosib am ei drafodaethau a'i benderfyniadau. Yn ogystal â'i raglen o gyfarfodydd gyda'r cyhoedd ymhob rhan o Gymru a chyhoeddi ei adroddiad blynyddol a'i gynllun corfforaethol, ac yn ogystal ag ystod eang o wybodaeth arall ar safle we S4C, mae'r Awdurdod hefyd wedi penderfynu cyhoeddi bwletinau rheolaidd am ei drafodaethau a'i benderfyniadau. Fe'u darperir i'r wasg ac ar safle we S4C.

Mae'r bwletin cyntaf yn edrych yn ôl ar waith yr Awdurdod dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Rôl yr Awdurdod a'r Côd Ymarfer

Bu'r Awdurdod yn adolygu ei rôl a mabwysiadodd gôd ymarfer ar gyfer ei ymddygiad ac ymddygiad ei aelodau unigol. Mae'r côd yn seiliedig ar y saith egwyddor ar gyfer bywyd cyhoeddus a amlinellwyd gan Bwyllgor Nolan. Y saith egwyddor yw: anhunanoldeb, integriti, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweiniad. Cyhoeddir y dogfennau hyn cyn bo hir, gan gynnwys ar safle we S4C.

Yn wyneb hyn, bu'r Awdurdod yn ystyried ei raglen waith i'r dyfodol gan gadarnhau y byddai'n canolbwyntio ar:

- lunio cyfeiriad strategol, blaenoriaethau a phrif gyllidebau S4C, a'r modd y mesurir llwyddiant y tîm rheoli i'w cyflawni. Gwneir hynny ar sail cynllun corfforaethol S4C, a gaiff ei ddiweddarau bob blwyddyn
- rheoleiddio darllediadau a gweithgareddau masnachol S4C
- ystyried adroddiadau rheolaidd ar bwy sy'n gwyllo raglenni S4C a beth mae'r gwylwyr yn ei feddwl ohonynt
- cynnal cyfarfodydd bob blwyddyn mewn gwahanol rannau o Gymru i glywed wyneb i wyneb beth sydd gan y gwylwyr i'w ddweud
- cynnal sesiynau briffio rheolaidd, yn ogystal â chyfarfodydd gyda chyrrff allanol, i gael clywed y diweddaraf am y datblygiadau a'r posibiliadau pwysig ym myd darlledu.

Rhaglenni a chyllidebau 2000/2001

Cymeradwyodd yr Awdurdod gynlluniau ar gyfer comisiynu rhaglenni S4C ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Fe'u lluniwyd, yn dilyn ymchwil cynulleidfa manwl, er mwyn cyflawni amcanion yr Awdurdod i:

- ddarparu gwasanaethau sy'n berthnasol a deniadol i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac i'r sawl sy'n llai rhugl, o bob oed ymhob rhan o Gymru, o bob grŵp cymdeithasol ac a chanddynt yr ystod llawn o ddiddordebau, gan gyfoethogi bywydau pawb;

- darparu gwasanaeth estynedig ar y gwasanaeth digidol yn ystod yr oriau llai poblogaidd, gan sicrhau ar yr un pryd nad yw hynny'n golygu gostyngiad yn safon y rhaglenni hynny y mae S4C yn eu darlledu yn ystod yr oriau brig ar y gwasanaeth analog (sy'n cael eu darlledu ar yr un pryd ar y gwasanaeth digidol);
- cynyddu nifer y bobl ifanc, gan gynnwys y rhai yn y grŵp oedran 16-44, sy'n gwyllo S4C.

Bydd y rhestri rhaglenni yn cyfuno rhaglenni cyfarwydd a phoblogaidd gyda'r newydd, gan ddarparu patrwm clir yn ystod y dydd a chyda'r nos, fel y bydd y gwylwyr yn gwybod pa fath o raglenni gaiff eu darlledu pryd. Prif nodweddion newydd y rhestri rhaglenni ar analog a digidol fydd:

- mwy o oriau drama gwreiddiol
- mwy o raglenni newydd ar gyfer plant cyn-ysgol ac oed ysgol
- rhaglenni wedi'u targedu ar gyfer cynulleidfa ifanc ar nosweithiau lau trwy gydol y flwyddyn
- gwelliannau pellach yn y gwasanaeth chwaraeon
- mwy o adloniant i'r teulu ar nosweithiau Sadwrn
- mwy o raglenni yn ystod y dydd ar Ddydd Sul.

At hynny, bydd nosweithiau hwyr ar ddigidol yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni thematig o ddiddordeb i grwpiau arbennig o wylwyr.

Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo dyraniadau cyllidebol ar gyfer 2000.

Yn dilyn y penderfyniadau hyn, gwerir 99% o grant llywodraeth y Deyrnas Gyfunol i S4C ar y gwasanaeth rhaglenni, a bydd o leiaf 95% o wariant S4C ar gomisiynu rhaglenni yng Nghymru.

Amseru prif newyddion y nos

Yn dilyn dadansoddiad manwl o batrymau gwyllo'r gynulleidfa, roedd yr Awdurdod, yn 1998, wedi cymeradwyo symud prif newyddion y nos ar S4C o 20.30 i 19.30 gan gychwyn ar ddechrau 1999.

Bu'r Awdurdod yn ystyried ffigyrau manwl am berfformiad prif newyddion nos a drama ac adloniant S4C ers y newid hwn. Dangosodd y ffigyrau hynny, o edrych ar y flwyddyn yn ei chrynswith, fod prif raglen newyddion y nos wedi cadw ei chyfran o'r gynulleidfa yn gyffredinol (er bod y ffigyrau wedi amrywio o wythnos i wythnos ac o noson i noson) a'i bod wedi gweld cynnydd amlwg yn ei chyfran yn Ne Cymru. Roedd barn y gynulleidfa am safon y newyddion hefyd wedi'i gynnal. Roedd nifer y gwylwyr yn y cyfnod rhwng 20.30 a 21.00, a fu'n gymysgedd o raglenni drama ac adloniant, wedi codi 38% ar gyfartaledd, o 34,000 i 47,000.

Yn wyneb yr wybodaeth hon, penderfynodd yr Awdurdod fod y penderfyniad i symud y prif newyddion wedi bod yn un cywir ac y dylai'r patrwm hwn barhau. Fel pob penderfyniad ar raglenni a'u trefn, bydd yr Awdurdod yn parhau i gadw golwg ar y mater hwn yng ngoleuni rhaglen barhaus S4C o waith monitro ac ymchwil cynulleidfa.

Canllawiau Rhaglenni ar ddefnyddio Saesneg mewn rhaglenni iaith Gymraeg

Bu'r Awdurdod yn ystyried sylwadau gan aelod o Gylch yr Iaith yn gwrthwynebu ei Ganllawiau Cydymffurfio ar gyfer Rhaglenni ar yr amodau pan y gall fod yn dderbyniol i ddefnyddio elfen gyfyngedig o Saesneg yn ystod rhaglenni Cymraeg.

Nododd yr Awdurdod ei fod wedi mabwysiadu'r Canllawiau ym mis Medi 1998 ar ôl ystyriaeth a thrafodaeth fanwl o'r sylwadau a dderbyniodd, ac o ystyried canlyniadau ymchwil arbennig a gomisiynwyd ar agweddau gwylwyr S4C.

Wedi trafodaeth bellach, penderfynodd yr Awdurdod nad oedd unrhyw reswm i newid y Canllawiau ar hyn o bryd. Roedd er hynny'n ymwybodol fod hwn yn fater anodd a sensitif oedd yn ennyn teimladau cryfion. Bydd yn parhau i fonitro'n ofalus sut y gweithredir y Canllawiau ac yn eu hadolygu o dro i dro yng ngoleuni'r profiad hwnnw.

Is-deitlau

Cymeradwyodd yr Awdurdod drefniadau arbennig ar gyfer is-deitlo Saesneg agored ar raglenni Cymraeg yn yr oriau brig yn ystod wythnos gyntaf Cwpan Rygbi'r Byd. Y bwriad oedd tynnu sylw gwylwyr at y gwasanaeth is-deitlo ar dudalen 888 Teletext a thrwy hynny i annog pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg a'r sawl gyda phroblemau clywed i wyllo rhaglenni S4C. Teimlwyd hefyd y byddai'n ffordd dda o ddwyn S4C i sylw'r sawl fydd yn ymweld â Chymru ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd.

Darllediadau Pleidiau Gwleidyddol

Cymeradwyodd yr Awdurdod broses ymgynghorol gyda'r prif bleidiau gwleidyddol ynghylch cynigion newydd ar gyfer darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau etholiadol gan bleidiau. Fe'u paratowyd ar y cyd gan S4C, y BBC, y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio. Yn dilyn arolwg o farn y cyhoedd am y darllediadau hyn, y prif newid a awgrymir yw cysylltu darllediadau anetholiadol gyda chynadleddau'r pleidiau. Gofynnwyd i'r pleidiau yng Nghymru i ddweud a ydynt yn rhagweld y byddent yn manteisio ar y ddarpariaeth hon ar gyfer eu cynadleddau Prydeinig neu Gymreig.

Gweithgareddau Masnachol S4C

Lluniodd yr Awdurdod ganllawiau ar sut y byddai'n parhau i arolygu a rheoleiddio gweithgareddau masnachol S4C. Ei amcanion yw maxsimeiddio'r difidend i S4C dros gyfnod o flynyddoedd er mwyn buddsoddi i ehangu ystod ac ansawdd ei raglenni Cymraeg a'i wasanaethau cyhoeddus eraill. Ar yr un pryd, bydd yn sicrhau y ceir masnachu teg, heb unrhyw fath o gymorthdal, boed uniongyrchol neu anuniongyrchol, o arian cyhoeddus, ac yn unol â chyfraith gystadleuaeth gyffredinol.

Fel rhan o'r newid yn y trefniadau ar gyfer ariannu S4C a ddigwyddodd yn sgîl Deddf Darlledu 1996, a ostyngodd lefel real yr arian cyhoeddus a gaiff S4C, rhoddwyd i S4C y grym i sefydlu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau masnachol. Rhaid i weithgareddau o'r fath fod yn llwyr neu'n rhannol at ddibenion cynnal gwasanaethau darlledu, neu weithgareddau cysylltiol, a rhaid eu trwyddedu gan y Comisiwn Teledu Annibynnol neu'r Awdurdod Radio.

Cymerodd S4C gamau cyflym i elwa ar fanteision y grym hwn. Mae ei drosiant masnachol blynyddol eisoes yn fwy nac £11.5 miliwn, a gwna gyfraniad pwysig tuag at dalu am orbenion a marchnata canolog S4C. Golygodd hynny y bu modd rhyddhau adnoddau i wella rhaglenni yn yr iaith Gymraeg. Golyga hefyd y bu modd gwneud gwelliannau gwasanaeth cyhoeddus pwysig megis darlledu byw o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cynlluniau i ehangu cyfleoedd addysgol ledled Cymru trwy gyfrwng y Coleg Digidol. Mae hefyd yn darparu'r arian had a fydd yn golygu y gallwn ehangu ar ein gweithgareddau masnachol a thrwy hynny gynhyrchu incwm ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus S4C i'r dyfodol.

Cadarnhaodd yr Awdurdod mai ei rôl oedd:

- paratoi'r strategaeth gyffredinol a'r polisiau cyffredinol ar gyfer holl weithgareddau masnachol S4C
- cymeradwyo'r systemau rheolaeth ac ariannol rhwng S4C a'i gwmnïau, a'r rhai y mae gan S4C gyfranddaliadau ynddynt
- cymeradwyo unrhyw weithgareddau masnachol arfaethedig ag iddynt oblygiadau strategol
- cyhoeddi canllawiau ar gyfer gweithgareddau masnachol S4C
- monitro perfformiad is-gwmnïau masnachol a buddsoddiadau masnachol S4C yn rheolaidd
- monitro'r systemau rheoli er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn gweithio'n iawn

Mae'r Awdurdod yn disgwyl cyhoeddi ei ganllawiau masnachol yn hwyrach eleni.

Rhoddodd yr Awdurdod i'r Pwyllgor Archwilio y cyfrifoldeb o archwilio a sicrhau fod gweithgarwch masnachol S4C yn cael ei weithredu yn unol â'r gofynion hyn.

Cydymffurfiaeth

Bu'r Awdurdod yn ystyried adroddiadau monitro rheolaidd gan ei Grŵp Cydymffurfiaeth. Mae'r Grŵp yn adolygu cydymffurfiaeth rhaglenni S4C gyda Chodau Gweithredu perthnasol (gan gynnwys y rheini gan y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Comisiwn Safonau Darlledu) ar sail adroddiadau hollol annibynnol a gynhyrchir o dan nawdd y Thomson Foundation. Mae'r Grŵp, a arweinir yn annibynnol, yn tynnu sylw'r Awdurdod at unrhyw enghreifftiau posib o dorri'r codau ymarfer perthnasol ac awgrymu sut y dylid cadw'r codau yn gyfoes.

Cytunodd yr Awdurdod y dylid ystyried ehangu, er mwyn cynnwys deunydd ar y Rhyngwrwyd, yr angen presennol y dylai plant gael caniatâd gan oedolyn cyfrifol cyn defnyddio rhif ffôn y cyfeirir ato mewn rhaglen.

Esboniodd yr Awdurdod y rheolau ar ddarlledu gwybodaeth am gynhyrchion masnachol a chanddynt gysylltiad uniongyrchol â rhaglenni, e.e. fideos a llyfrau. Caniatawyd darlledu'r wybodaeth yma yn ystod y cydnabyddiaethau ar ddiwedd rhaglenni. Penderfynodd yr Awdurdod y dylid eu caniatáu hefyd ychydig cyn diwedd rhaglenni nad oes ynddi unrhyw gydnabyddiaethau. Fel gyda rhaglenni ag iddynt gydnabyddiaethau wrth gloi, ni ddylai cyflwynwyr y rhaglenni chwarae unrhyw ran yn y cyhoeddiadau ffeithiol hyn, y mae'n rhaid eu gwneud trwy ddefnyddio un neu ragor o droslais ar wahân, geiriau neu luniau.

Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw manwl i'r defnydd o iaith gadarn mewn rhaglenni, yn enwedig felly ar ôl trothwy 9.00 pm.

Mae'r Awdurdod yn adolygu a diweddarau ei ganllawiau cydymffurfio ar gyfer rhaglenni yn gyffredinol. Bwriada gyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig yn y Flwyddyn Newydd wedi ymgynghori â darparwyr rhaglenni er mwyn sicrhau fod y canllawiau newydd yn eglur ac y byddant yn gweithio'n ymarferol er mwyn cyflawni gofynion yr Awdurdod.

Cwynion

Cytunodd yr Awdurdod sefydlu pwyllgor i ystyried unrhyw gwynion am raglenni neu agweddau eraill o weithgareddau S4C a wneir yn ffurfiol gan yr Awdurdod. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys aelod annibynnol a bydd yn adrodd i'r Awdurdod, a fydd yn gwneud y dyfarniad terfynol. Prin iawn fu'r cwynion o'r fath a dderbyniwyd yn y gorffennol gan yr ymdrinnir yn effeithiol â'r rhan fwyaf o bwyntiau a wneir gan wylwyr gan Linell y Gwylwyr neu staff arall.

Er mwyn sicrhau fod y cyhoedd yn gwybod sut i wneud sylwadau neu gwynion, cytunodd yr Awdurdod y dylai gyhoeddi taflen i'w dosbarthu'n helaeth, i'w chynnwys hefyd ar safle we'r Awdurdod.

Trafodaeth gyda'r Adran ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Yn ei gyfarfod ym mis Medi, roedd yr Awdurdod yn falch o groesawu Nicholas Kroll, Pennaeth Grŵp Diwydiannau Creadigol, y Cyfryngau a Darlledu yn yr Adran ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (Adran Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gyfrifol am yr arian cyhoeddus a delir i S4C). Rhoddodd hyn gyfle i gael trafodaeth lawn ar y prif gwestiynau sy'n wynebu'r byd darlledu, yn enwedig felly yng ngoleuni'r araith ddiweddar yng nghynhadledd y Gymdeithas Deledu Frenhinol yng Nghaergrawnt gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Mr Chris Smith, AS. Yn ei araith roedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ail-ddatgan pwysigrwydd canolog darlledu'r sector cyhoeddus yn yr oes ddigidol. Pwysleisiodd yn arbennig ei gyfrifoldeb i ofalu fod y cynnwys o safon uchel ac i sicrhau y cyflawnir amcan y Llywodraeth sef y dylai holl sectorau cymdeithas elwa o'r ystod ehangach o wasanaethau, gwybodaeth a chyfleoedd a gynigir gan dechnoleg ddigidol. Dywedodd hefyd, ar yr amod y byddai trwch mawr y boblogaeth yn gallu derbyn teledu digidol a'r gwasanaethau ategol, fod y Llywodraeth o'r farn y dylai fod modd diffodd darlledu analog rhywbryd rhwng 2006 a 2010. Dywedodd, o gael ei hail-ethol, y byddai'r Llywodraeth Lafur yn cyflwyno deddfwriaeth yn gynnar yn oes y Senedd newydd i ddarparu'r fframwaith cywir ar gyfer cyd-gyfarfyddiad cynyddol-gyflym diwydiannau a thechnolegau darlledu, telegyfathrebu a'r rhyngwyd.

Canolbwyntiodd y drafodaeth eang hon gyda Mr Kroll ar sut i hyrwyddo darlledu digidol er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon; ariannu darlledwyr y sector cyhoeddus er mwyn cystadlu yn yr oes ddigidol; a materion a allai godi yn y ddeddfwriaeth arfaethedig.

Mae'r Awdurdod yn disgwyl y bydd yn dychwelyd at y materion hyn yn y misoedd nesaf. Edrycha ymlaen at wneud cyfraniad i'r trafodaethau ehangach hyn ar bolisi er mwyn sicrhau fod anghenion darlledu yng Nghymru, ac yn enwedig felly yn yr iaith Gymraeg, yn cael eu hystyried yn llawn.

Datblygu economaidd ac arian Ewrop

Roedd yr Awdurdod yn falch o nodi fod y Tasglu Ewropeaidd, sy'n cynghori'r Cynulliad ar sut i wneud y defnydd gorau o arian Amcan 1 ac Amcan 3 y Gymuned Ewropeaidd, wedi dynodi diwydiannau'r cyfryngau yn gyffredinol, a darlledu yn arbennig, fel meysydd blaenoriaeth a allai chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o greu twf cynladwy yn economi Cymru.

Mae S4C wedi cyflwyno ymateb llawn i gynigion y Tasglu. Mae hwnnw ar gael ar safle we S4C.

Nawdd ac ysgoloriaethau

Cymeradwyodd yr Awdurdod nawdd gan S4C i nifer o gyrff a mudiadau allweddol yn y flwyddyn 2000, yn eu plith:

£150,000 i Gerddorfa Genedlaethol Cymru'r BBC

£25,000 i'r Wyl Ffilm Geltaidd

£5,000 i Fforwm Cyfryngau Cymru

Materion eraill

Bu'r Awdurdod hefyd yn parhau i fonitro:

- perfformiad y gwasanaethau rhaglenni
- sefyllfa ariannol S4C
- perfformiad gweithgareddau masnachol S4C

Cyfarfod cyhoeddus nesaf yr Awdurdod

Bydd yr Awdurdod yn cynnal cyfarfod cyhoeddus agored am 7.00 pm yn y Ganolfan Ddinesig, Merthyr Tudful ar 28 Hydref 1999. Edrycha ymlaen at glywed sylwadau'r cyhoedd ac at ateb cwestiynau wyneb i wyneb.

R2W42